

## LLYWELYN, TOMAS (fl. c. 1580-1610), neu Tomas ap Llywelyn ap Dafydd ap Hywel, bardd ac uchelwr

**Enw:** Tomas Llywelyn

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** bardd ac uchelwr

**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth; Teuluoedd Brenhinol a Bonheddig

**Awdur:** Griffith John Williams

o Rigos yng nogledd Morgannwg. Yn ôl un llyfr achau, yr oedd o hil [Einion ap Collwyn](#). Ceir amryw gywyddau o'i waith yn y llawysgrifau, ac yr oedd hefyd, megis y rhan fwyaf o feirdd Morgannwg yn yr oes honno, yn canu cwnnidau duwiol. Efallai mai ei gyfansoddiadau mwyaf diddorol i ni heddiw ydyw ei ddau draethol, y naill yn cynnwys dadl rhwng yr eglwys a'rdafarn, a'r llall 'brognosticasiwn' am y flwyddyn 1610. Sonnid amdano yn y ganrif ddiwethaf fel un o sér bore Anghydffurfiaeth ym Mlaenau Morgannwg, a dywedid fod ganddo gynulleidfaedd yn Rhigos a Blaencannaid a mannau eraill, ac iddo gyfieithu'r Beibl Saesneg yn Gymraeg. 'Iolo Morganwg' a dywedodd y pethau hyn gyntaf, a chyn bellted ag y gellir barnu, nid oes dim sail iddynt.

### Awdur

Yr Athro Emeritus [Griffith John Williams](#), (1892 - 1963)

### Ffynonellau

Hopkin-James a T. C. Evans, *Hen Gwndidau, Carolau, a Chwyddau* (Bangor 1910), 284-8

D. Rhys Phillips, *The History of the Vale of Neath* (Swansea 1925), 1925, 140-3, 411-3, 532-7

G. J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (1948), 1948, 126-8, 309-15

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Williams, G. J., (1953). LLYWELYN, TOMAS (fl. c. 1580-1610), neu Tomas ap Llywelyn ap Dafydd ap Hywel, bardd ac uchelwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-LLYW-TOM-1580>

LLGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Nosbarwr  
Llyfrgell Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government